# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Hydref 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 162(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## Datganiad gan y Llywydd

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

(45 munud)

## 4 Dadl: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy: archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru

(60 munud)

**NDM8372** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd ar 'Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy: Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru'.

2. Yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad a fydd o gymorth ar gyfer llunio polisïau yn y dyfodol o dan Cymru Iachach.

Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy: Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

3. Yn credu, os yw GIG Cymru am gael ei ddiogelu ar gyfer heriau'r dyfodol, mae'n hanfodol cadw'r gweithlu presennol a recriwtio rhagor o staff.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod gweithwyr y sector iechyd a gofal yn cael y codiad cyflog sy'n ddyledus iddynt ynghyd â thelerau ac amodau gwaith sy'n addas i'r diben, gan gynnwys arferion gweithio hyblyg a chyfleoedd hyfforddiant mewn gwaith; a

b) datblygu strategaeth gyflawni glir gyda thargedau a chostau llawn ar gyfer cynllun gweithlu newydd, gan gynnwys camau i dynnu elw o waith asiantaeth.

## 5 Cyfnod pleidleisio

## 6 Dadl: Cyfnod 3 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

(90 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a dderbyniwyd gan y Senedd ar 27 Mehefin 2023.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

1. Technegol

7, 8, 9, 10, 11, 12

2. Caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd fel rhan o gaffaeliadau cymysg

1, 5

3. Egwyddorion caffael a llywodraethiant y gwasanaeth iechyd

20, 15, 17

4. Effaith cysoni neu ddargyfeirio rheoleiddiol

2, 18

5. Gweithredu rheoliadau o dan adran 10A(1)

14, 16, 19, 23, 25

6. Rhan y sector gwirfoddol a'r trydydd sector

21

7. Ymgynghori ynghylch rheoliadau o dan adran 10A(1) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006

22

8. Cydymffurfedd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

3

9. Rhyngweithio â'r cyd-destun polisi, deddfwriaethol a strategol ehangach

4

10. Adolygu gweithrediad rheoliadau o dan adran 10A

6

**11. Gweithdrefn graffu ar gyfer rheoliadau o dan adran 10A(1)**

24, 26, 13

**Dogfennau Ategol**

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2

Memorandwm Esboniadol, diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 11 Hydref 2023